

MAREDUDD ap GRUFFUDD ap RHYS (1130 neu 1131 - 1155), tywysog Deheubarth

Enw: Maredudd ap Gruffudd ap Rhys
Dyddiad geni: 1130 neu 1131
Dyddiad marw: 1155
Rhiant: Gwenllïan ferch Gruffudd
Rhiant: Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog Deheubarth
Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

Mab hynaf **Gruffydd ap Rhys** a Gwenllïan, merch **Gruffudd ap Cynan**. Chwe mlwydd oedd pan fu ei dad farw. Daeth i amlygrwydd pan oedd yn 16 oed wrth gynorthwyo ei hanner-brawd, **Cadell**, i ymlid y Normaniaid o Geredigion ac wrth amddiffyn caer Caerfyrddin a gymerasid ychydig yn gynt. Yn 1151 chwaraeodd ran flaenllaw yn y gorchwyl o ymlid gwyr Gwynedd yn ôl y tu hwnt i afon Ddyfi; yn yr un flwyddyn cwmpodd baich arwain yn y De ar ei ysgwyddau oblegid anallu **Cadell**. Bu farw bedair blynedd yn ddiweddarach yn yr oed cynnar o 25, eithr wedi ennill iddo'i hun enw ardderchog mewn rhyfel a heddwch a chan drosglwyddo ei faich i frawd iau - yr **arglwydd Rhys** wedi hynny.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

Giraldi Cambrensis Opera (1861&€"91)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Maredudd ap Gruffydd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q2253176

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Pierce, T. J., (1953). MAREDUDD ap GRUFFUDD ap RHYS (1130 neu 1131 - 1155), tywysog Deheubarth. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 28 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MARE-APG-1130>

Ciprwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government